

Cyngor Cymuned Llanycil

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth, Hydref 8fed 2019 yn Neuadd Maesywaen. Yn bresennol oedd Euros Puw (Is-gadeirydd), Gwynfryn Williams, Jean Roberts, Geraint Davies., Huw Charles, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Geraint Jones, Gwynedd Jones, Rhys Richards ac Arwel Davies.

Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.

ii) Datgan Buddiant.

Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

Nid oedd unrhyw fater yn codi o'r cyfarfod diwethaf.

iv) Gohebiaeth.

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

a) Cyngor Gwynedd.

i) Rhaglen Waith yr Adran Briffyrdd ar gyfer mis Hydref.

b) Un Llais Cymru

i) Diweddarau'r Model Reoliadau Ariannol - adroddodd y Clerc fod mân newidiadau wedi cael ei wneud i'r fersiwn cyfredol y Cyngor. Cytunwyd i fabwysiadu'r Reoliadau Ariannol newydd.

ii) Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 - Dyletswydd Cyngorau Chymuned a Thref o dan Adran 6 Amrywiol. Mae'n ofynnol i awdurdodau cyhoeddus (gan gynnwys Cyngorau Cymuned & Thref) o dan Ddeddf yr Amgylchedd Cymru 2016 Adran 6 i baratoi a chyhoeddi cynllun yn amlinellu'r hyn y bwriadant ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd i Gynnal a Chryfhau Bioamrywiaeth o fewn eu meysydd gwaith presennol. Cytunwyd i ail edrych ar hyn cyn gynted a fyddai'r 'Canllaw Arfer Da a Chanllaw Adroddiadau' yn cael eu dosbarthu i Gyngorau Cymuned & Thref.

c) Amrywiol.

i) Plaid Cymru - cais am gefnogaeth i gael canolfan ddiagnosis canser yng Ngwynedd. Gofynnwyd i'r clerc basio'r e-bost ymlaen i'r cyngorwyr gwblhau'r

ii) Triathalon Y Bala 2020 - derbyniwyd e-bost yn cadarnhau y byddai'r triathalon yn cael ei gynnal ym mis Medi yn 2020 a chafwyd amlinelliad o'r cynlluniau. Cytunwyd os oedd y trefniadau rheoli traffig yn aros yr unfath nid oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cynlluniau.

iii) Annibyniaeth i Gymru - cynigwyd a eiliwyd i drafod y mater. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd i adael y mater a'i drafod ymhellach pan fyddai mwy o gynghorwyr yn bresennol.

v) Ceisiadau Cynllunio.

a) Archwiliad Blynyddol.

Derbyniwyd yr Adroddiad yn nol gan yr archwilwyr allanol gyda'r cadarnhad ei fod yn gywir ac nid oedd unrhyw fater yn codi o'r archwiliad. Cytunwyd i'w gymeradwyo. Cafwyd cadarnhad gan y Clerc ei bod wedi arddangos y 'Rhybudd o ddiwedd yr archwiliad' yn y manau perthnasol.

b) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau)

Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

c) Cytunwyd i dalu'r canlynol:-

Cyflog a Chostau'r Clerc (Gorff-Medi), TWE

ch) Ceisiadau ariannol

Derbyniwyd cais ariannol gan Hosbis Tŷ'r Eos. Cytunwyd i'w drafod gyda gweddill y ceisiadau ariannol ym mis Mawrth.

vi) Unrhyw Fater Arall.

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r materion canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-

i) Gwter Fedw Arian - roedd y gwter yn parhau i greu trafferth a chytunwyd i holi'r Adran Briffyrdd os oeddynt am wneud gwelliannu i ddatrys y broblem.

ii) Pentref Parc- yn dilyn gwaith o flaen tai Tai'n Rhos gan Dŵr Cymru roedd nifer o dyllau yn y tarmac a dŵr yn codi.

iii) Ffos di tagu ger giât Boch Rhaeadr, Arenig - gan fod y ffos wedi tagu roedd y dŵr yn llifo i lawr y ffordd.

iv) Ffosydd rhwng Llanerch Las a Cynythog Ganol, Llidiardau - roedd angen agor y ffosydd gan fod y dŵr yn dod drosodd i'r ffordd.

**Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos
Fawrth, Tachwedd 12fed yn Neuadd
Maesywaen am 8.00 y.h.**